# Consortiwm De Orllewin a Chanolbarth Cymru
# South West and Mid Wales Consortium

ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.org.uk

## Y Bwrdd Gweithredol

**26 Mehefin 2015**
**Y Llwyfan**
**Caerfyrddin**
**11.30 a.m. – 1.00 p.m.**

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Eifion Evans [Cadeirydd] Prif Gyfarwyddwr ERW Cyngor Sir Ceredigion; |
| Aled Evans | Castell-nedd Port Talbot; |
| Betsan O'Connor | Rheolwr Gyfarwyddwr ERW; |
| Rob Sully | Cyngor Sir Caerfyrddin; |
| Ian Thompson | Pennaeth Arweinyddiaeth a Datblygiad ar gyfer ERW; |
| Lindsay Harvey | Dinas a Sir Abertawe; |
| Martin S. Davies | Cyngor Sir Caerfyrddin; |
| Hefyd yn bresennol fel arsylwyr: | |
| Gwion Dafydd | Ymgynghorydd Ystadegol; |
| Martin Grey | Llywodraeth Cymru; |
| Joanne Hendy | Archwilio Mewnol - Cyngor Sir Penfro |

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Alun Charles (Aelod Annibynnol o'r Bwrdd), Sarah Fulthorpe (Llywodraeth Cymru), Jonathan Haswell (Swyddog Adran 151, Sir Benfro), Geraint Rees (Llywodraeth Cymru) a Mike Gibbon (Ysgol Sandfields, Castell-nedd Port Talbot, Is-gadeirydd, Bwrdd y Penaethiaid).

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. COFNODION Y CYFARFOD AR 27 MAWRTH 2015**

**CYTUNWYD bod cofnodion y cyfarfod ar 27 Mawrth, 2015 yn cael eu cadarnhau yn gofnod cywir.**

**4. DATGANIAD CYFFREDINOL BLYNYDDOL**

**CYTUNWYD bod copi o'r Datganiad Cyffredinol Blynyddol yn cael ei anfon i bob Cyngor cyfansoddol ar ERW**.

**5. COFRESTR RISGIAU**

Dosbarthwyd i'r Bwrdd gopi o'r Gofrestr Risgiau a fyddai'n helpu ERW i gefnogi ei amcanion, defnyddio adnoddau'n effeithiol, a chyflawni deilliannau yn ôl y bwriad.

**CYTUNWYD bod y Gofrestr Risgiau yn cael ei chymeradwyo.**

**6. POLISI CWYNION**

Dosbarthwyd i'r Bwrdd gopi o bolisi cwynion ERW.

**NODWYD.**

**7. FFRAMWAITH RHANNU SWYDDOGAETHAU**

Dosbarthwyd i'r Bwrdd gopi o'r Fframwaith Rhannu Swyddogaethau a fyddai'n ategu dylunio a darparu gwasanaethau ym mhob rhan o ERW. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai unrhyw faterion oedd yn peri pryder gael eu cyflwyno yng nghyfarfod misol Grŵp y Cyfarwyddwyr.

**CYTUNWYD bod y Fframwaith Rhannu Swyddogaethau yn cael ei ddefnyddio i wneud newidiadau i rolau pob awdurdod lleol yn ERW fel y pennwyd yn y Cytundeb Cyfreithiol.**

**8. CRAFFU AC ATEBOLRWYDD DEMOCRATAIDD**

Dosbarthwyd papur i'r Bwrdd a bennai'r trefniadau cynlluniedig ar gyfer craffu ac atebolrwydd democrataidd ERW. Ei nod oedd diffinio'n glir y disgwyliadau o ran trefniadau atebolrwydd a chraffu ar y cyd effeithiol i randdeiliaid allweddol o fewn prosesau atebolrwydd democrataidd pob awdurdod lleol cyfansoddol. Roedd trefniadau ar y gweill i gynnal seminar ym mis Medi ar gyfer yr holl gadeiryddion craffu.

**CYTUNWYD bod y trefniadau presennol yn cael eu cymeradwyo.**

**9. Y CYFNOD SYLFAEN**

Dosbarthwyd papur i'r Bwrdd a ddarparai fanylion ynghylch sut y byddai cymorth i'r Cyfnod Sylfaen yn ERW yn cael ei roi ar waith ac yn gweithio'n effeithiol fel ffrwd waith er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Busnes. Dywedodd BO'C fod angen i ERW sicrhau nad oedd swyddogaethau'r awdurdodau lleol yn gorgyffwrdd ac felly roedd yn rhaid sefydlu ffiniau. Mynegodd y Cadeirydd bryderon ynghylch diffyg eglurder ar lefel Genedlaethol o ran y mater cymhleth hwn, ac roedd o'r farn fod angen trafodaeth ynghylch yr hyn roedd ERW yn gyffyrddus ag ef ar lefel ranbarthol.

**CYTUNWYD bod y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf Grŵp y Cyfarwyddwyr.**

## 10. HYFFORDDIANT E-DDYSGU I LYWODRAETHWYR YSGOL

Dosbarthwyd papur i'r Bwrdd am ddarparu mynediad i fodiwlau E-ddysgu ar gyfer hyfforddiant statudol ac anstatudol i'r holl lywodraethwyr ysgol. Roedd Grŵp Cymorth i Lywodraethwyr ERW wedi blaenoriaethu hyfforddiant fel elfen allweddol o weithio rhanbarthol ac yn y flwyddyn bresennol roedd y grŵp wedi rhannu ei raglenni hyfforddiant, gan ddatblygu rhaglen ledled y rhanbarth. Er bod yr adroddiad yn argymell cymeradwyo prynu'r Hyfforddiant E-ddysgu i Lywodraethwyr i'w roi ar waith ar draws y rhanbarth trwy un taliad o £6,000 i'w wneud gan ERW, awgrymwyd bod y mater yn cael ei ohirio er mwyn gweld beth oedd safon mathau eraill o hyfforddiant ar-lein oedd ar gael am ddim.

**CYTUNWYD i ohirio rhoi ystyriaeth i'r mater hwn tan y cyfarfod nesaf.**

## 11. GRŴP CYFREITHIOL GWEITHREDOL

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i bapur a gynigai cynnal cyfarfodydd y swyddogion cyfreithiol gweithredol bob tymor. Awgrymwyd y byddai'r cyfarfodydd hyn yn helpu'r awdurdodau lleol cyfansoddol o ran gwybodaeth ychwanegol ac yn darparu briffiau i Gyfarwyddwyr fel y bo'r angen.

**CYTUNWYD I**

**11.1. gynnal cyfarfodydd y swyddogion addysg cyfreithiol gweithredol unwaith y tymor a bod y Grŵp yn cael ei gadeirio gan Stephanie Williams [Dinas a Sir Abertawe];**

**11.2. gofyn i'r Grŵp ymchwilio i weithrediad hysbysiadau cosb benodedig gan awdurdodau lleol cyfansoddol ERW.**

## 12. Y GYMRAEG MEWN ADDYSG - DIWEDDARIAD

Rhoddwyd ystyriaeth gan y Bwrdd i adroddiad a oedd yn rhoi trosolwg o Grŵp y Gymraeg mewn Addysg ERW ac yn darparu manylion ynghylch sut y byddai'r cymorth i Gynllun Busnes y Gymraeg mewn Addysg ledled ERW yn gweithio. Byddai'r Cynllun yn sicrhau cysondeb o ran ymagwedd at ddwyieithrwydd ar draws ERW ac yn gwella safonau o ran addysgu a dysgu y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith.

**CYTUNWYD i roi awdurdod i swyddogion fwrw ymlaen â'r cynllun fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.**

## 13. DYSGU PROFFESIYNOL A'R FARGEN NEWYDD

Cyflwynodd Ian Thompson Dabl [ar gael ar wefan ERW] a roddai gipolwg cyffredinol ar y camau allweddol mewn perthynas â Dysgu Proffesiynol o ran gweithredu'r Fargen Newydd yn ogystal â chynnig rhagolwg strategol. Y disgwyl oedd y byddai pob ysgol yn dod yn ysgol dysgu proffesiynol ar gyfer rhyw agwedd ar ei gwaith. Roedd tair astudiaeth achos i fod i gael eu lanlwytho i wefan ERW er mwyn i'r holl

ysgolion gael golwg arnynt. Er bod diwrnod hyfforddiant i Benaethiaid Ysgol wedi ei drefnu ar gyfer mis Medi, dywedwyd y dylent hefyd gael cymorth bugeiliol er mwyn cynnal cydbwysedd bywyd / gwaith. Croesawodd RS y Tabl ond mynegodd bryderon ynghylch y cyfeiriad cenedlaethol a gallu ysgolion i roi'r cynigion hyn ar waith. Roedd o'r farn, er bod hwn yn gyfle i ysgolion da wella, y gallai ysgolion eraill gael anhawster. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig fod ERW fel corff ar y cyd yn cefnogi'r cynigion.

**NODWYD.**

**14. RHANNU DATA**

Rhoddwyd diweddariad i'r Bwrdd ynghylch sefyllfa ERW a'r 6 awdurdod lleol o ran rhannu data ar draws y rhanbarth a'r defnydd a'r diogelwch dilynol o ddata lefel disgyblion. Roedd yn ofynnol i'r 6 awdurdod lleol lofnodi datganiadau ynghylch y Protocol Rhannu Gwybodaeth a fyddai'n cael ei gadw'n ganolog yn ERW. Diolchwyd i Gwion Dafydd am y gwaith roedd wedi ei wneud.

**NODWYD.**

**15. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

**NODWYD bod y cyfarfod nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 24 Gorffennaf 2015.**